



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Addysgu'r Dyfodol



**ADDYSG CYMRU**  
**EDUCATION WALES**  
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

## Jaziea

**Daeth ysbrydoliaeth Jaziea i ddilyn gyrfa addysgu gan ei mam, a ddechreuodd ar yr un llwybr hefyd.**

“Rydw i wastad wedi bod eisiau bod yn athrawes ers cyn belled ag y gallwn gofio. Ond dydw i ddim yn meddwl fy mod wedi meddwl y gallai fod yn realiti nes i fy Mam ddechrau hyfforddi. A dwi'n meddwl mai dyna'r foment lle ro'n i wir yn meddwl, waw gallaf wneud hyn.”

**Fel llawer o athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol eraill, cafodd Jaziea ei hysbrydoli i ddilyn gyrfa ym myd addysgu ar ôl cymryd sylw o'r diffyg athrawon ethnig leiafrifol yn ei hysgolion fel plentyn. Mae Jaziea yn cofio sut y lluniodd y profiad hwn ei chanfyddiad o addysgu fel gyrfa.**

“Dechreuais yn yr ysgol gynradd, yn Grangetown, a doedd dim athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yno. Symudais ym mlwyddyn 2, i ysgol gynradd wahanol, ac rwy'n meddwl mai fi oedd yr unig blentyn Du, efallai bod un arall, ac nid oedd unrhyw athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Wrth i mi fynd yn hŷn, dechreuais sylwi efallai nad yw athrawon yn Ddu.”

**Mae profiad personol Jaziea wedi dangos iddi sut y gall diffyg cynrychiolaeth athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn ysgolion gael effaith negyddol ar ddisgyblion ethnig lleiafrifol. Mae'n egluro sut y gall cynnwys athrawon ethnig leiafrifol yn yr ystafell ddosbarth osod y naws ar gyfer profiad dysgu sy'n cael effaith.**

“Mae'n gadael i ddisgyblion weld bod pobl fel nhw'n dysgu yng Nghymru. Dw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn eu bod nhw'n gweld athrawon o gefndiroedd amrywiol yn siarad Cymraeg. Fe allech chi wneud gwahaniaeth enfawr.”

**Mae Jaziea yn pwysleisio dylanwad cenedlaeth athrawon, gan fynegi'r rhan helaeth y maent yn ei chwarae wrth osod y sylfeini ar gyfer gweddill bywydau eu myfyrwyr. Dyna, mae hi'n credu, yw'r peth mwyaf am fod yn athrawes.**

“Pa yrfa arall allech chi ysbrydoli pobl i fod yn unrhyw beth. Gall athro ddysgu dosbarth a gallech chi gael meddyg, nyrs, ac rydych chi'n ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf, mae hynny'n gyfrifoldeb enfawr ac yn llawenydd mawr.”